**Crynodeb: Gwerthusiad o Gyllid Oed-gyfeillgar Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol**

Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid penodol i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cymunedau oed-gyfeillgar, yn unol â'r weledigaeth a nodir yn Cymru o blaid pobl hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio. Mae'r cyllid hwn wedi galluogi awdurdodau lleol i benodi swyddogion oed-gyfeillgar, cryfhau partneriaethau lleol a chynnwys pobl hŷn yn y gwaith o lunio gwasanaethau a chymunedau lleol.

Mae'r adroddiad hwn yn gwerthuso effaith y buddsoddiad hwn o £3.850,000 dros 4 blynedd, gan ddefnyddio adroddiadau diwedd blwyddyn o 2024 – 25, ymatebion i holiaduron gan awdurdodau lleol a gwybodaeth gan grwpiau ffocws gyda phobl hŷn a hwyluswyd gan Age Cymru. Nod yr adroddiad yw nodi arferion da a'r camau nesaf ar ein taith ar y cyd i ddod yn Gymru oed-gyfeillgar, drwy ddod â safbwyntiau strategol a chymunedol at ei gilydd.

Mae'r gwerthusiad hwn wedi nodi'r chwe chanlyniad canlynol y mae awdurdodau lleol yn anelu at eu cyflawni (a restrir isod).

**1. Dod yn aelod o Rwydwaith Dinasoedd a Chymunedau Oed-Gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd**

Un o brif nodau'r cyllid yw cefnogi awdurdodau lleol i fod yn aelodau o Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd. Mae 11 awdurdod lleol wedi llwyddo i ddod yn aelodau, ac mae eraill wrthi'n mynd drwy'r broses ymgeisio. Mae ymgysylltu â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd wedi darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer asesu darpariaeth leol, nodi meysydd i'w gwella a gwreiddio egwyddorion oed-gyfeillgar ar draws gwasanaethau.

Mae awdurdodau lleol yn nodi bod aelodaeth o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd wedi dod â hygrededd, wedi gwella eu gwelededd ac wedi hwyluso mynediad at adnoddau byd-eang a dysgu gan gymheiriaid. Hyd yn oed i'r rheini nad ydynt eto'n aelodau, mae'r broses ymgeisio ei hun wedi bod yn drawsnewidiol drwy annog cydweithio, myfyrio beirniadol a gwelliannau cynnar mewn polisi ac ymarfer. Mae fframwaith Sefydliad Iechyd y Byd hefyd wedi helpu awdurdodau lleol i gysoni eu gwaith â safonau rhyngwladol ac wedi atgyfnerthu dull ataliol sy'n seiliedig ar hawliau o heneiddio.

**2. Sefydlu strwythurau oed-gyfeillgar a chryfhau partneriaethau**

Mae'r cyllid wedi galluogi awdurdodau lleol i wreiddio egwyddorion oed-gyfeillgar yn eu strwythurau sefydliadol a'u darpariaeth gwasanaethau. Mae Swyddogion Cymunedau Oed-gyfeillgar bellach yn gweithio ledled Cymru, ac maent yn aml wedi'u lleoli mewn adrannau fel gofal cymdeithasol, atal, neu bolisi corfforaethol, sydd wedi hwyluso cydweithio trawsadrannol ac aliniad strategol. Mae llawer o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau llywio mewnol a phartneriaethau allanol gyda byrddau iechyd, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae'r partneriaethau hyn wedi arwain at gynllunio a darparu gwasanaethau mewn ffordd fwy cydgysylltiedig, gydag ystyriaethau oed-gyfeillgar yn cael eu hadlewyrchu fwyfwy mewn polisïau a fframweithiau lleol.

## 3. Cryfhau Lleisiau Pobl Hŷn

Mae awdurdodau lleol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sicrhau bod lleisiau pobl hŷn yn cael eu clywed ac yn dylanwadu ar benderfyniadau lleol. Mae fforymau, grwpiau cynghori a rhwydweithiau wedi cael eu sefydlu neu eu hadfywio, gan ddarparu cyfleoedd rheolaidd i bobl hŷn rannu eu barn. Mae awdurdodau lleol wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys digwyddiadau wyneb yn wyneb, arolygon, cylchlythyrau ac allgymorth digidol, gyda phwyslais cryf ar ryngweithio wyneb yn wyneb. Mae adborth gan bobl hŷn yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i lywio polisïau, siapio gwasanaethau ac arwain penderfyniadau cyllido. Er bod ymgysylltu'n gryf ar y cyfan, mae heriau'n parhau o ran cyrraedd unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol a sicrhau cyfathrebu cyson ar draws pob ardal. Mae pobl hŷn wedi mynegi awydd am ymgysylltu mwy cynhwysol a hygyrch, yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

## 4. Cydgynhyrchu a Grymuso Cymunedau

Mae'r cyllid oed-gyfeillgar wedi meithrin diwylliant o gydgynhyrchu, gyda phobl hŷn yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ddylunio ac arwain gweithgareddau cymunedol. Mae awdurdodau lleol wedi symud tuag at rolau galluogi, cefnogi grwpiau pobl hŷn gyda cheisiadau am gyllid, cyngor llywodraethu a meithrin gallu. Mae gwirfoddoli wedi dod i'r amlwg fel nodwedd allweddol o'r rhaglen, gan gynnig cyfleoedd i bobl hŷn ar gyfer cysylltiad cymdeithasol, pwrpas a chyfraniad. Mae awdurdodau lleol wedi hwyluso'r gwaith o ddatblygu mentrau newydd dan arweiniad y gymuned ac wedi helpu grwpiau presennol i dyfu a chynnal eu gwaith. Er bod gwirfoddoli yn cael ei werthfawrogi'n fawr, tynnodd pobl hŷn sylw at y ffaith bod rhwystrau fel cyfyngiadau iechyd, anawsterau trafnidiaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o gyfleoedd yn parhau i effeithio ar gyfranogiad. Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm a chynaliadwyedd mentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned.

## 5. Cynhwysiant, hygyrchedd a llesiant

Mae awdurdodau lleol wedi dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant a hygyrchedd, gan gydnabod anghenion amrywiol pobl hŷn. Mae gwasanaethau a gweithgareddau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu gwahaniaethau mewn oedran, iechyd, iaith, diwylliant a statws economaidd-gymdeithasol. Mae cynghorau wedi cymryd camau i sicrhau hygyrchedd ffisegol, darparu gwybodaeth mewn sawl iaith, a chynnig sianeli cyfathrebu digidol a heb fod yn ddigidol.

Mae allgymorth wedi'i dargedu wedi gwella ymgysylltiad â grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDTC+, a phobl hŷn anabl. Er gwaethaf yr ymdrechion hyn, mae heriau parhaus fel ynysu gwledig, rhwystrau trafnidiaeth, ac allgáu digidol yn parhau i gyfyngu ar gyfranogiad rhai. Mae awdurdodau lleol yn ymateb gyda dulliau arloesol, gan gynnwys cyfarfodydd yn y gymuned, prosiectau pontio'r cenedlaethau, a strategaethau cyfathrebu cyfunol, ond mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau mynediad teg i bawb.

## Cyfathrebu a rhannu gwybodaeth

Mae gwell cyfathrebu wedi bod yn ganlyniad nodedig i'r cyllid oed-gyfeillgar. Mae awdurdodau lleol wedi mabwysiadu dull cyfunol o rannu gwybodaeth, gan gyfuno dulliau traddodiadol fel cylchlythyrau wedi'u hargraffu, taflenni ac ymgysylltu wyneb

yn wyneb ag offer digidol gan gynnwys gwefannau, cyfryngau cymdeithasol a chyfarfodydd ar y we. Mae'r ymdrechion hyn wedi helpu pobl hŷn i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau, gweithgareddau a chyfleoedd yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae adborth gan bobl hŷn yn dangos nad yw bob amser yn hawdd dod o hyd i wybodaeth na chael gafael arni, yn enwedig i'r rheini nad ydynt ar-lein. Mae angen o hyd am gyfeirio clir, negeseuon cyson ac allgymorth rhagweithiol i sicrhau bod yr holl bobl hŷn, beth bynnag fo'u hamgylchiadau, yn gallu parhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a chael eu cynnwys.

**Effeithiau ar bobl hŷn**

Mae'r rhaglen oed-gyfeillgar wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar lesiant pobl hŷn. Mae cysylltiadau cymdeithasol wedi cael eu cryfhau, gyda llawer o bobl hŷn yn dweud eu bod yn teimlo'n llai unig a'u bod yn perthyn. Mae llesiant emosiynol a hyder wedi gwella wrth i bobl hŷn deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u cynnwys mwy yn eu cymunedau. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol wedi cefnogi ffyrdd iachach o fyw a gwell symudedd. Mae mynediad at wasanaethau a chymorth wedi cynyddu, gyda mwy o bobl hŷn yn cael gwybodaeth am fudd-daliadau, trafnidiaeth ac adnoddau lleol. Mae'r rhaglen hefyd wedi grymuso pobl hŷn i ymgymryd â rolau arwain, gwirfoddoli a chyfrannu'n ystyrlon at eu cymunedau. Mae gwelliannau i fannau cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol wedi gwella diogelwch a hygyrchedd, gan gefnogi annibyniaeth a chyfranogiad pobl hŷn ymhellach.

**Adborth o grwpiau ffocws pobl hŷn**

Rhannodd pobl hŷn ledled Cymru amrywiaeth eang o brofiadau ynghylch eu cyfranogiad mewn mentrau oed-gyfeillgar. Disgrifiodd llawer o'r cyfranogwyr fod y gweithgareddau a gefnogir gan y cyllid yn hanfodol i'w llesiant, gan gynnig cysylltiad cymdeithasol, pwrpas, a gwell iechyd meddwl a chorfforol. Roeddent yn gwerthfawrogi cyfleoedd i gwrdd ag eraill, lleihau unigrwydd a theimlo'n rhan o gymuned. Tynnwyd sylw at wirfoddoli fel rhywbeth gwerth chweil, gan helpu unigolion i gynnal ymdeimlad o hunaniaeth a chyfraniad ar ôl ymddeol.

Fodd bynnag, roedd profiadau o ymgysylltu'n amrywio. Er bod rhai pobl hŷn yn teimlo eu bod wedi'u grymuso drwy fforymau strwythuredig a chyswllt rheolaidd â Swyddogion Cymunedau Oed-Gyfeillgar, dywedodd eraill eu bod yn teimlo eu bod wedi'u heithrio neu nad oeddent yn gwybod sut i gymryd rhan. Roedd allgáu digidol yn bryder cyson, gyda llawer o gyfranogwyr heb y sgiliau, yr hyder na'r mynediad i ymgysylltu ag ymgynghoriadau neu gyfathrebu ar-lein. Roedd yn well o lawer ganddynt ymgysylltu wyneb yn wyneb, deunyddiau wedi'u hargraffu, a hysbysfyrddau lleol.

Mynegodd y cyfranogwyr rwystredigaeth hefyd gydag opsiynau cyfyngedig o ran trafnidiaeth , yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i fynychu gweithgareddau neu ddefnyddio gwasanaethau. Codwyd materion hygyrchedd ffisegol hefyd, fel palmentydd gwael a thoiledau cyhoeddus annigonol. Roedd rhai pobl hŷn yn teimlo bod gwybodaeth am wasanaethau a chyfleoedd yn rhy dameidiog neu gudd, gan ddibynnu gormod ar lwyfannau digidol neu ar rannu gwybodaeth ar lafar.

Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd awydd clir am ymgysylltu mwy ystyrlon, cyfathrebu gwell, a dulliau ymgynghori cynhwysol. Galwodd pobl hŷn am gynrychiolaeth fwy

gweladwy, allgymorth gwell, a chefnogaeth barhaus i fentrau sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Lle'r oedd Swyddogion Cymunedau Oed-gyfeillgar yn weithredol ac yn weladwy, roeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn cael eu hystyried yn gysylltwyr ac eiriolwyr hanfodol.

**Yr heriau a nodwyd**

Er gwaethaf y cynnydd a wnaed, mae sawl her yn dal i fodoli. Mae cylchoedd cyllido tymor byr wedi cyfyngu ar allu awdurdodau lleol i gynllunio'n strategol a chynnal parhad. Mae cyfyngiadau o ran capasiti, yn enwedig lle mae un Swyddog Cymunedau Oed-gyfeillgar yn gyfrifol am gylch gwaith eang, wedi effeithio ar raddfa a chysondeb y ddarpariaeth. Mae allgáu digidol a rhwystrau o ran trafnidiaeth yn parhau i lesteirio ymgysylltu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Gall cydlynu gwell ar draws mentrau cysylltiedig a diffiniadau cliriach o rolau ar gyfer Swyddogion Cymunedau Oed-gyfeillgar er mwyn sicrhau cysondeb ac effeithiolrwydd helpu. Mae cyrraedd unigolion hŷn sydd wedi'u hynysu neu wedi ymddieithrio yn parhau i fod yn her, sy'n gofyn am ymdrechion allgymorth parhaus wedi'u targedu.

**Casgliad**

Mae'r cyllid oed-gyfeillgar wedi sicrhau canlyniadau ystyrlon ledled Cymru, gan wella bywydau pobl hŷn a thrawsnewid sut mae awdurdodau lleol yn mynd ati i ddelio â heneiddio. Mae awdurdodau lleol yn nodi newid diwylliannol tuag at arferion mwy cynhwysol, ymatebol a chydweithredol. Mae pobl hŷn yn cael eu cynnwys, eu grymuso a'u cefnogi'n well nag o'r blaen, ac mae gwasanaethau'n cyd-fynd fwyfwy â'u hanghenion a'u dyheadau. Mae'r rhaglen wedi dangos gwerth cyllid penodol wedi'i neilltuo i sbarduno newid strategol a meithrin cadernid cymunedol.

Er bod y cyfeiriad cyffredinol yn gadarnhaol, roedd y grwpiau ffocws pobl hŷn hefyd wedi wynebu heriau pwysig sy'n llesteirio'r cynnydd hwn. Soniwyd yn aml am rwystrau fel trafnidiaeth, ynysu gwledig, allgáu digidol ac ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwasanaethau sydd ar gael. Yn nodedig, cydnabuwyd yr un materion hyn hefyd gan awdurdodau lleol yn eu hadroddiadau a'u holiaduron, gan ddangos cyd-ddealltwriaeth o'r rhwystrau strwythurol ac ymarferol a all gyfyngu ar gyfranogiad.

Nid anghytuno ynghylch y materion sy'n bwysig yw'r gwahaniaeth, ond y profiad o'u heffaith. Er bod awdurdodau lleol yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn drwy gynllunio strategol a phartneriaeth, mae profiadau pobl hŷn o ddydd i ddydd yn awgrymu bod angen gwneud mwy i sicrhau bod yr ymdrechion hyn yn cyrraedd pawb, yn enwedig y rheini sydd fwyaf ynysig neu sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.

Mae hefyd yn amlwg bod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r cyllid i gyflawni ei ganlyniadau penodol yn well nag eraill. Gellir dangos hyn drwy nifer yr awdurdodau lleol sydd wedi llwyddo i ymaelodi â Rhwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd, ond hefyd drwy ein dadansoddiad o adroddiadau diwedd blwyddyn sy'n dangos bod blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, materion staffio neu gymorth ar lefel strategol yn llesteirio rhai awdurdodau lleol.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r ymrwymiad i waith oed-gyfeillgar yn dal yn gryf. Ledled Cymru, mae timau'n gwrando ar bobl hŷn, yn hyrwyddo dealltwriaeth rhwng y cenedlaethau, yn dathlu amrywiaeth, yn eiriol dros gyllid cynaliadwy ac yn dod ag amrywiaeth o bartneriaid at ei gilydd i weithio tuag at weledigaeth ar y cyd o Gymru oed-gyfeillgar.

**Y Camau Nesaf**

1. Mae'r Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol wedi cytuno ar gyllid ar gyfer swyddi Swyddogion Cymunedau Oed-gyfeillgar yn y flwyddyn ariannol nesaf (2026-27). Cyhoeddwyd hysbysiad cynnar o gyllid drwy ddatganiad ysgrifenedig i ddathlu Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn. Bydd penderfyniadau cyllido mewn perthynas â 2027-28 ymlaen yn cael eu hystyried gan weinyddiaeth 2026-30
2. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i rannu ac annog arferion gorau drwy Rwydwaith Oed-Gyfeillgar yr Awdurdodau Lleol a'r cylchlythyr chwarterol.
3. Mewn partneriaeth â'r Comisiynydd Pobl Hŷn, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i annog awdurdodau lleol nad ydynt eto'n aelodau o Rwydwaith Sefydliad Iechyd y Byd i gyflwyno cais.
4. Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r gwerthusiad hwn â Rhwydwaith Oed-gyfeillgar yr Awdurdodau Lleol, Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, y Comisiynydd Pobl Hŷn a swyddogion perthnasol o bob rhan o Lywodraeth Cymru i ystyried materion trawsbynciol a godwyd sy'n ymwneud ag allgáu digidol, trafnidiaeth, gwirfoddoli a hygyrchedd gwasanaethau a mannau cyhoeddus. Bydd y gweithgor hwn hefyd yn ystyried sut i ehangu ymwybyddiaeth o gymunedau oed-gyfeillgar i gyrff mwy strategol ledled Cymru.
5. Gan ddysgu o ganfyddiadau'r gwerthusiad hwn, byddwn yn sefydlu gweithgor o bobl hŷn, aelodau Fforwm Cynghori'r Gweinidog ar Heneiddio, awdurdodau lleol a phartïon eraill sydd â diddordeb i ganolbwyntio ar ymgysylltu a sut i gyrraedd grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.
6. Byddwn yn gweithio gyda'r partneriaid a restrir uchod i ystyried gwerth y canlynol:
   a) Meini prawf cyllido cliriach ar gyfer awdurdodau lleol yn 2026-27.
   b) Gwell amlygrwydd a brandio ar gyfer menter oed-gyfeillgar i gynyddu ymwybyddiaeth.
   c) Fframwaith safonol ar gyfer rolau Swyddogion Cymunedau Oed-gyfeillgar, gan gynnwys cylch gwaith a chanlyniadau clir.
7. Byddwn yn ariannu Age Cymru i weithio gydag Un Llais Cymru i annog mwy o Gynghorau Tref a Chymuned i fod yn rhan o greu Cymru oed-gyfeillgar.
8. Llywodraeth Cymru i gynnwys awdurdodau lleol mewn rhaglen waith sy'n gysylltiedig â herio oedraniaeth.